## DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
## CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
## DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
## RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
## DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

# AWDURDODAETHAU'R PWYLLGOR GORFODAETH
# ADRODDIAD ADOLYGU ACHOSION
# Medi 2004

**Mae adroddiadau am yr achosion hyn wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor o'r blaen, ond maent yn parhau i fod heb eu datrys. Pwrpas yr Adroddiad yw darparu diweddariad byr i'r Aelodau bob chwarter. Mae'n well trafod unrhyw faterion mewn dyfnder gyda'r Swyddogion cyn neu ar ôl y Pwyllgor.**

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/292/97/S P7/521 | Voel Las, Eryrys | 26/11/97 | Newidiadau anawdurdodedig i lefelau tir a gwaith anawdurdodedig arall. | Cyflwynwyd rhybudd, ni chyflwynwyd apêl. Dyddiad cydymffurfiad: 09/04/99. Cydymffurfiwyd â'r rhybudd. Gwaith tirweddu caled a meddal yn mynd rhagddo mewn perthynas â chais cyfeirnod: 15/76/99PF.<br>Caniatawyd cais cynllunio ôl-weithredol 15/2004/345/PF ar 01/09/04. | Monitro'r gwaith tirweddu a chydymffurfiad gyda'r amodau tirweddu. |
| ENF/037/95/N P13/11 | Rhydorddwy Goch, Ffordd Dyserth , Y Rhyl | 28/10/98<br>24/03/04 | 31 o ffenestri anawdurdodedig mewn adeilad rhestredig. | Cyflwynwyd rhybudd. Gwrthodwyd yr apêl. Dyddiad cydymffurfio : 19/10/00, felly mae yma achos o dorri rheol.<br>Cafodd 4 ffenestr eu newid ac ystyrir hynny'n dderbyniol.<br>Ni chafodd 27 o'r ffenestri eu newid, ond erbyn hyn maent wedi cael eu paentio'n wyn. Y tor-rheol yn parhau ar ôl cyhoeddi'r rhybudd. Y cais i gadw'r ffenestri wedi iddynt gael eu paentio. (44/2003/1101/LB) wedi cael ei wrthod yn unol â'r argymhelliad. | Mae'r Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (GCDC) wedi ysgrifennu at y perchennog a chytunwyd ar sgediwl o waith er mwyn cydymffurfio gyda'r Rhybudd.<br><br>GCDC i fonitro cydymffurfiad. |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gall y perchennog apelio eto, ond fe'i cynghorwyd na fyddai apêl yn debygol o lwyddo ac y byddai'r Cyngor yn gwneud cais am gostau. | |
| ENF/006/97/S P13/8 | Cerbyty a Stablau, Parc Lleweni, Dinbych | 27/10/99 | Esgeuluso adeilad rhestredig. | Dim datblygiad anawdurdodedig. Achos syml yw hwn o adeilad rhestredig Gradd II* yn cael ei esgeuluso. Mae'r perchennog wedi marw. Mae'r safle'n cael ei werthu. | Yn cysylltu gyda'r Swyddogion cadwraeth er mwyn cytuno ar y ffordd fwyaf priodol i weithredu ac i benderfynu a all gorfodaeth cynllunio gynorthwyo i ddatrys y mater. Yn aros i glywed a yw'r safle wedi cael ei werthu. Y sefyllfa i gael ei monitro. |
| ENF/001/99/N P13/5 | Banc Elwy, Stryd Fawr, Llanelwy | 09/05/00 | Esgeuluso adeilad cofrestredig. | Dim datblygiad anawdurdodedig. Achos syml i adeilad rhestredig yn cael ei esgeuluso. Mae'r perchennog wedi cwblhau gwaith dros dro i sefydlogi strwythur yr adeilad yn unol â'r Reoliadau Adeiladu. Y sgaffaldiau wedi cael eu symud oddi yno erbyn hyn. Y perchennog yn awyddus i gadw'r murluniau. | Y GCDC yn trafod y cynigion i newid defnydd/datblygu'r safle gyda'r perchennog.<br><br>Yn aros am ganlyniad cais cynllunio a chais am gydsyniad i newid adeilad rhestredig. |
| ENF/127/00/S P13/13 | 7 Ffordd y Rheilffordd, Rhuthun. | 28/06/00 | Ffenestri a drws uPVC mewn Adeilad rhestredig. | Cyflwynwyd rhybudd. Ni dderbyniwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 27/04/02. Y perchennog yn parhau i dorri'r rheol a geir yn y Rhybudd ar ôl i hwnnw gael ei gyhoeddi.<br><br>Cais am Gydsyniad i Adeilad Rhestredig i osod ffenestri a drws newydd uPVC wedi cael ei wrthod ym Mehefin. Gall y perchennog apelio..<br><br>Ail gyhoeddwyd Rhybudd ar | Y GCDC i fonitro'r dyddiad cydymffurfio. |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 6/08/04 . Mae ffenestri eraill wedi'u gosod gan ran-gydymffurfio â'r Rhybudd. Y dyddiad cydymffurfio ar gyfer gosod drws arall yw 20/12/04. Hyn yn caniatáu amser ar gyfer cynnal apêl. | |
| ENF/434/99/N<br>LB1 – P7/552<br>LB2 – P7/553<br>LB3 – P7/555<br>LB4 – P7/554 | 4 o gilfannau ar yr A55 yn Rhuallt | 28/03/01 | Gosod a masnachu o unedau arlwyo symudol ar Dir y Goron. | Cyflwynwyd 4 Rhybudd. Gwrthodwyd yr apeliadau. Dyddiad cydymffurfio: 02/05/03 LlCC wedi gosod arwyddion ym mhob un o'r 4 cilfan yn datgan 'dim masnachu' . Yn ogystal, codwyd ffensiau yn 2 o'r cilfannau. Bellach mae pob un o'r unedau parhaol wedi cael eu symud.<br>Parheir i ddefnyddio 1 o'r cilfannau yn ystod y dydd gan uned symudol sy'n mynd a dod a defnyddir llecyn glas yn ymyl y gilfan i osod byrddau a chadeiriau mewn perthynas â'r defnydd hwn. Cafodd Portaloo ei symud oddi yno ar 11 Gorffennaf 2004. | Adroddwyd am hyn i'r Aelodau yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2003 fel achos DGP.<br><br>Y GCDC i fonitro'r safle ar ôl negydu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Briffyrdd a fydd yn gyfrifol am drwsio'r ffens yn ymyl y gilfan i rwystro'r tir glas rhag cael ei ddefnyddio. Y gwaith hwn i'w gwblhau cyn diwedd Medi 2004. |
| ENF/133/00/S<br>P7/560 | Llyn Cyfynwy, Lake Hill Farm, Llandegla | 25/07/01 | Carafán - Uned ddwbl breswyl | Cyflwynwyd Rhybudd. Ni dderbyniwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 31/10/02. Ni chafodd y garafán ei symud yn unol â gofyniad y rhybudd gorfodaeth a dywedir bod y perchennog wedi dychwelyd i fyw yn y garafán. Felly mae'r rheol | Disgwyl am benderfyniad ynghylch y ceisiadau cynllunio gan y gall hyn ddisodli gofynion y Rhybudd.<br><br>Yr erlyniad am dorri'r rheol a geir yn y Rhybudd wedi cael ei ohirio. |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sydd yn y Rhybudd yn cael ei thorri.<br>Cyflwynwyd cais i gael cadw'r garafán fel swyddfa ac i godi adeilad swyddfa parhaol. | |
| ENF/2001/004<br>P7/564<br><br>ENF/2003/0016<br>P7/601<br><br>ENF/2003/0015<br>P2/43 | 208 Stryd Fawr Prestatyn | 25/07/01<br><br>23/04/03<br><br>23/04/03 | Gosod caeadau rholer mewn Ardal Gadwraeth<br><br>Gosod codwr stondin anawdurdodedig o flaen siop mewn Ardal Gadwraeth<br><br>Arwydd wyneb fwrdd goliwiedig mewn Ardal Gadwraeth | Cyflwynwyd Rhybudd. Ystyriwyd yr apêl yn annilys. Dyddiad cydymffurfio: 21/02/02<br>Bellach yn torri'r rheol sydd yn y Rhybudd. Wedi bod yn y Llys. Pledio'n ddieuog, gan ddyfynnu Hawliau Dynol. Cynhaliwyd yr achos ar 13/02/04.<br>Cafwyd y diffynnydd yn ddieuog ar sail mater technegol yn ymwneud â chyhoeddi'r Rhybudd.<br><br>Cyflwynwyd Rhybudd. Ni chyflwynwyd apêl. Bellach yn torri'r rheol sydd yn y Rhybudd.<br><br>Cafwyd awdurdod i erlyn mewn perthynas â'r arwydd anawdurdodedig. Yr arwydd yn parhau i fod yn ei le. Cynhaliwyd yr achos ar 13/02/04 ynghyd ag achos y caeadau rholer.<br><br>Cafwyd y diffynnydd yn euog a'i ddirwyo £500 a gofyn iddo dalu costau o £300. | **Gwasanaethau Cyfreithiol i'w cyfarwyddo i erlyn oherwydd tor-rheol mewn perthynas â'r Rhybuddion yn ymwneud â'r caeadau rholer, y codwr stondin a'r arwydd sy'n parhau i gael ei arddangos. Hyn i'w wneud yn dilyn cadarnhau'r manylion yn ffurfiol gyda'r perchennog.** |
| ENF/2001/005<br>P7/565 | 'Patina', 204 Stryd Fawr, Prestatyn | 25/07/01 | Gosod caeadau rholer mewn Ardal Gadwraeth. | Cynhaliwyd yr achos ar 13/02/04 a chafwyd y diffynnydd yn ddieuog ar sail mater technegol yn ymwneud â chyhoeddi'r | **Gwasanaethau Cyfreithiol i'w cyfarwyddo i erlyn oherwydd tor-rheol mewn perthynas â'r Rhybuddion yn ymwneud â'r caeadau rholer. Hyn i'w** |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rhybudd. | **wneud yn dilyn cadarnhau'r manylion yn ffurfiol gyda'r perchennog.** |
| ENF/2002/007<br>P7/568 | Ty Isoe, Maes Maelor, Llandegla | 30/01/02 | Storio cerbydau a defnydd preswyl | Cyflwynwyd Rhybudd. Gwrthodwyd yr apêl. Dyddiad cydymffurfiad : 01/04/04<br><br>Y perchennog yn torri'r rheol sydd yn y Rhybudd.<br><br>Y GCDC a'r GC wedi cael cyfarfod cychwynnol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ystyried gweithredu ar y cyd. | Y GCDC a'r GC i gynnal cyfarfod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar 17 Medi 2004. Bydd Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd yn cymryd rhan. Gobeithir y bydd y cyfarfod yn cytuno ar amserlen ar gyfer gweithredu. |
| ENF/2002/005<br>P7/573 | Bryn Eglur, Llanrhaeadr | 27/02/02 | Estyniad i annedd. | Cyflwynwyd Rhybudd. Tynnwyd yr apêl yn ôl. Dyddiad cydymffurfio : 02/12/03 Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar sail datrysiad oedd yn gyfaddawd.<br><br>Manylion bellach wedi'u cyflwyno a'u cytuno mewn perthynas â'r amodau ynghylch gorffeniad y tu allan yr adeilad. | GCDC yn monitro'r datblygiad. |
| ENF/2002/025<br>P7/580 | 115 Ffordd yr Arfordir, Y Rhyl | 26/06/02 | Defnydd cymysg, preswyl a gwerthu moduron. | Ôl gais wedi cael ei wrthod a Rhybudd wedi cael ei gyflwyno. Yr apêl a ddilynodd wedi cael ei gwrthod. Dyddiad cydymffurfiad wedi'i ymestyn i 29/12/03.<br><br>Y Perchennog yn torri'r rheol sydd yn y rhybudd. | **Gorchmynnwyd y GC i erlyn y perchennog am dorri'r rheol sydd yn y Rhybudd a phennwyd 24 Awst 2004 fel dyddiad cynnal y llys pryd y cynhelir yr erlyniad. Bu raid gohirio dyddiad yr achos oherwydd salwch y sawl a weithredai fel tyst ar ran y Cyngor. Yn aros, yn awr, i ddyddiad newydd ar gyfer cynnal y llys gael ei bennu.** |
| ENF/2002/021 | Cornel Bach, | 04/09/02 | Lleoli cartref | Ôl-gais wedi cael ei wrthod a | GCDC i fonitro a sicrhau bod y plannu yn |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| P7/351 | Ffordd Isaf Dinbych, Llanelwy | | symudol a chreu cwrtil | rhybudd wedi'i gyflwyno. Yr apêl ddilynol wedi cael ei ganiatáu am gyfnod dros dro tra oedd rhieni oedrannus yn byw yn y cartref symudol. Amod yn gofyn i goed gael eu plannu i ffurfio sgrin i guddio'r garafán. | cael ei wneud a'r garafán a fu'n breswylfan i rieni gwael yn cael ei symud. |
| ENF/2002/033 P7/588 | Chester House, 32 Stryd Sussex, Y Rhyl (Chaplins) | 04/09/02 | Gosod arwydd ffasgia mewn Ardal Gadwraeth | Arwydd mewn Ardal Gadwraeth yn cael ei arddangos gyda chaniatâd tybiedig, ond yn cael ei ystyried yn annerbyniol, gan fod dodrefn caeedig priffordd yn rhan ohono. Swyddog Prosiect THI a Swyddogion Cynllunio yn cynnal trafodaethau gyda'r perchenogion i'w hannog i wneud gwelliannau i'r arwydd a'r eiddo. | Y negydu yn parhau a'r Swyddog Cydymffurfiad (THI - Y Rhyl) bellach wedi ei benodi i gydlynu unrhyw weithredu. Y mater bellach yn cael ei ddal yn ôl. |
| ENF/2002/017 P24/194 | 153 Stryd Fawr, Prestatyn | 04/09/02 | Blaen siop mewn uPVC mewn Ardal Gadwraeth. | Cyflwynwyd Rhybudd. Dyddiad cydymffurfio: 21/01/04.<br><br>Y perchennog yn torri'r rheol sydd yn y Rhybudd.<br><br>Cais Cynllunio [43/2004/972/PF0] i newid blaen y siop wedi'i gyflwyno. | Yn aros am benderfyniad ar y Cais Cynllunio.<br><br>Yr erlyniad yn cael ei ddal yn ôl. |
| 15/877/98/MA P47/3 | Chwarel Maes y Droell, Graianrhyd | 30/10/02 | Cais ROMP amhendant - echdyniad yn parhau | Gwasanaethau Cynllunio wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr cyfreithiol perchenogion y chwarel ar sail y cyngor a dderbyniwyd gan Gwnsel a phenderfyniad y Pwyllgor. | Yn aros i dderbyn ymateb ffurfiol ar ran perchenogion y chwarel. Nodyn atgoffa ffurfiol i'w anfon. |
| ENF/2002/043 P7/592 | Hen dir y rheilffordd, Ty Draw, Bodfari. | 18/12/02 | Storio cerbydau rheilffordd a thaclau cysylltiol. | Cyhoeddwyd Rhybudd a gwrandawyd ar apêl ar ffurf Ymchwiliad Cyhoeddus. | GCDC yn monitro'r sefyllfa. Erlyniad yn cael ei ddal yn ôl gan fod y perchennog wrthi'n clirio'r safle ac yn cydymffurfio gyda |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/2003/031<br>P7/592 | | 23/07/03 | Ffens derfyn a gatiau dros 2m o uchder. | Gwrthodwyd yr apêl. Yr arferiad o storio i'w ddirwyn i ben a'r holl eitemau i'w symud ymaith erbyn y dyddiad cydymffurfio: 03/04/04.<br><br>Cyflwynwyd Rhybudd yn gofyn am i'r ffens gael ei thynnu i lawr mewn 3 mis. Dyddiad cydymffurfio : 26/03/04.<br><br>Y Perchennog yn torri'r rheol sydd yn y ddau Rybudd ac wedi cael ei rybuddio y gellir ei erfyn. Y safle bellach yn cael ei glirio a'r perchennog yn darparu gwybodaeth am y cynnydd. | gofynion y Rhybudd.<br><br>Erlyniad yn cael ei ddal yn ôl. |
| ENF/2003/009 | Pysgodfeydd Casgan, Llandegla | 23/07/03 | Defnydd preswyl o garafán a lleoli cerbydau | Awdurdodwyd Camau gorfodi i sicrhau bod terfyn ar y defnydd o'r safle a symud y cerbydau oddi yno.<br>Cyflwynwyd Rhybudd ar 30 Mehefin 2004 ac mae wedi gweithio. Ni chyflwynwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio 19/02/04. | GCDC i fonitro'r dyddiad cydymffurfio. |
| ENF/2003/028 | Tir yn ffinio ar Uned 10, Parc Busnes HTM, Ffordd Abergele, Rhuddlan | 03/09/03 | Lleoli carafán sefydlog i ddibenion preswyl. | Awdurdodwyd Camau Gorfodi i sicrhau bod defnydd preswyl o'r garafán yn dod i ben a'i bod yn cael ei symud. Cyflwynwyd Rhybudd. Rhoddwyd 18 mis i gydymffurfio. Derbyniwyd apêl ar ffurf ysgrifenedig. Gwrthodwyd yr apêl ym Mehefin 2004 ac ategwyd y Rhybudd. Dyddiad cydymffurfio 3 Rhagfyr 2005. | GCDC i fonitro'r dyddiad cydymffurfio. |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/2003/038 | 60 Ffordd Gronant, Prestatyn | 01/10/03 | Nid oedd y datblygiad yn unol â'r hyn a ganiatawyd dan GC Rhif Cod 43/2001/1194/PF | Awdurdodwyd camau gorfodi i sicrhau newidiadau i'r dormer i gyfateb i'r cynlluniau a gymeradwywyd. Cyflwynwyd Rhybudd 6 mis i'r dyddiad cydymffurfio: Y perchennog wedi torri rheol y Rhybudd. Rhoddwyd caniatâd cynllunio gan Bwyllgor Cynllunio Mehefin 2004 ar gyfer cynllun amgen yn dilyn trafodaethau cyn-cais gyda Swyddogion. | GCDC i fonitro gweithrediad y cynllun amgen.<br><br>Erlyniad yn cael ei ddal yn ôl. |
| ENF/2003/039 | Tan y Graig, Nantglyn | 26/11/03 | Storio moduron | Awdurdodwyd Camau Gorfodi i sicrhau bod y cerbydau yn cael eu symud. Rhybudd i gael ei lunio.<br><br>Rhybudd S330 wedi cael ei ddanfon ar law ar 5 Ebrill 2004 i ddiben crisialu manylion am berchenogaeth. Hysbyswyd yr AG am ddiffyg dychwelyd y Rhybudd hwn.<br><br>Archwiliad diweddar yn dangos bod y tor-cyfraith yn cael sylw. | GCDC i gyfarwyddo'r AG i lunio Camau Gorfodi pan fydd perchenogaeth wedi'i gadarnhau. |
| ENF/2003/040 | Penrhydgoch, Nantglyn | 26/11/03 | Storio moduron | Awdurdodwyd Camau Gorfodi i sicrhau bod y cerbydau yn cael eu symud. Rhybudd i gael ei lunio.<br><br>Rhybudd S330 wedi cael ei ddanfon ar law ar 5 Ebrill 2004 i ddiben crisialu manylion am berchenogaeth. Hysbyswyd yr AG am ddiffyg dychwelyd y | GCDC i fonitro'r angen am gyflwyno Camau Gorfodi. |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rhybudd hwn.<br><br>Archwiliad diweddar yn dangos bod y tor-cyfraith yn cael sylw. | |
| ENF/2003/041 | Coral Spring, Ffordd Rhuthun, Llandegla | 26/11/03 | Y defnydd o dir i leoli carafán a storio moduron | Camau Gorfodi wedi'u hawdurdodi i symud y cerbydau. Rhybudd i gael ei lunio. | GCDC i gyfarwyddo'r GC i lunio Rhybudd. |
| ENF/2003/0002 | Gwasg Gee, 12 Stryd y Capel, Dinbych | 24/03/04 | Esgeulustod o adeilad rhestredig. | Camau Gorfodi wedi'u hawdurdodi i gyflwyno Rhybudd Atgyweirio<br><br>Cyflwynwyd Rhybudd Atgyweirio i'r perchennog ar 30 Mehefin 2004. Dim ymateb penodol na gweithredu gan y perchennog i fynd i'r afael â gofynion y Rhybudd. | GCDC i gydweithio gyda'r GC a Rheolwr y Prosiect (THI). |
| ENF/2003/00042. | Parc Bach Derwen, Corwen | 24/03/04 | Trawsnewid adeiladau amaethyddol ar gyfer defnydd preswyl. | Camau Gorfodi wedi'u hawdurdodi i derfynu'r defnydd preswyl ac i drefnu gwaith dymchwel.<br><br>Cyflwynwyd Rhybudd ar 6 Awst 2004 – yn parhau gydag amser i apelio. | GCDC i fonitro dyddiad cydymffurfiad. |
| ENF/2004/00033 | 5 Ochr y Foel, Eryrys | 21/04/04 | Codi ffens | Cais ôl-weithredol 15/2004/166/PF wedi cael ei wrthod a chamau gorfodi wedi'u hawdurdodi i symud y ffens / gostwng ei lefel i 1 metr. Gohiriwyd cyflwyno Rhybudd ar gais yr Aelodau er mwyn i ddatrysiad gael ei negydu. Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle | PPPS to instruct LS to draft Notice. |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gyda'r perchennog a ddywedodd y byddai'n apelio yn erbyn y gwrthodiad. Ni dderbyniwyd apêl. | |
| ENF/2004/00034 | 2 Tan y Maes, Gallt Melyd, Prestatyn | 21/04/04 | Codi ffens dros 1 metr o uchder yn ymyl y ffordd. | Camau gorfodi wedi'u hawdurdodi i ostwng uchder y ffens/lefel isaf y ffens i 1 metr. Gohiriwyd cyflwyno Rhybudd ar gais Aelodau er mwyn i ddatrysiad gael ei negydu. Cyfarfod ar y safle gyda'r perchennog sydd wedi cytuno i ostwng lefel y ffens ac i ostwng rhagor ar lefel y ffens ochr. | GCDC i fonitro. |
| ENF/2004/00035 | Clinig Stryd y Ffynnon, Rhuthun | 21/04/04 | Arddangos arwydd hysbysebu goliwiedig allanol. | Ôl gais 02/2004/0086/AD wedi cael ei wrthod ac erlyn wedi'i awdurdodi er mwyn cael gwared â'r golau. Y perchennog am gyflwyno cais arall. | GCDC i roi manylion i'r perchennog am fathau derbyniol o oleuni.<br><br>Erlyniad i'w ddal yn ôl. |
| ENF/2004/00058 | 4 Rhodfa Aspen, Y Rhyl | 21/04/04 | Gosodiad 2 lestr lloeren, gydag un ohonynt yn 1m mewn diameter o flaen yr annedd. | Camau Gorfodi wedi'u hawdurdodi i symud y llestr mwyaf. | GCDC wedi rhoi gwybod i'r Adran Gyfreithiol lunio Rhybudd. |
| ENF/302/00/N | 37 – 39 Ffordd Pendyffryn, Y Rhyl | 21/04/04 | Esgeulustod o adeilad rhestredig | Awdurdodwyd cyflwyno Rhybudd Atgyweirio. Rhoddwyd yr eiddo ar y farchnad a'i werthu yng Ngorffennaf 2004 i ddatblygwr eiddo. Yn disgwyl cais am ganiatâd cynllunio a chais am gydsyniad adeilad rhestredig. | Y GCDC i fonitro'r sefyllfa. Hwyrach na fydd angen cyflwyno Rhybudd os ceir caniatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer ail-ddatblygu. |
| ENF/2004/00039 | Pen Y Mynydd Bach, Rhuallt | 19/05/04 | Codi seilo ar gyfer grawn. | Ôl gais cynllunio wedi ei wrthod ac awdurdod wedi'i roi i gymryd camau gorfodi i dynnu'r seilo i lawr. Ni dderbyniwyd apêl yn erbyn y gwrthodiad cynllunio. | Cyfarfod i'w drefnu ar y safle gyda'r perchennog. GCDC i gyfarwyddo'r AG i lunio Rhybudd. |

| CYF. Rhif | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/2004/00048 | Gweithdy yng nghefn 3 Stryd Gamlin, Y Rhyl. | 01/09/04 | Newid defnydd o weithdy i annedd sengl a gwaith cysylltiol. | Rhoddwyd awdurdod i gyflwyno Camau Gorfodi i derfynu'r gwaith, i roi'r gorau i'r defnydd preswyl a gwneud unrhyw waith y mae ei angen i sicrhau hynny. | GCDC i gyfarwyddo'r AG i lunio Rhybudd Camau Gorfodi. |

GCDC – Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd
GC – Gwasanaethau Cyfreithiol
GD – Gwasanaethau Datblygu
YS – Ymweliad Safle
DGP Dim Gweithredu Pellach

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**29 MEDI 2004**

**EITEM AGENDA 4**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# ENWI FFORDD NEWYDD YN NHREFNANT

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn i'r Aelodau gytuno ar enw ffordd ar gyfer y datblygiad sydd wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd yn Ffordd Bodfari, Trefnant.

## 2. CEFNDIR

2.1 Trafodwyd enwau amgen ar gyfer y datblygiad. Mae'r Cyngor wedi derbyn cais oddi wrth y Cyngor Cymuned i roi'r enw Pwll y Clai ar y datblygiad hyn ar sail cysylltiadau hanesyddol y safle. Mae'r datblygwr wedi bod yn galw'r datblygiad yn "Vale Views" ac mae'n fodlon â'r defnydd o fersiwn Gymraeg o hyn neu i enwi'r ffordd yn Pwll y Clai.

2.2 Mae'r polisi cyfredol ar enwi a rhifo strydoedd a gytunwyd gan y Pwyllgor Cynllunio ym mis Chwefror 1997 yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, y maen prawf a ganlyn:
"2. Dylai enwau feddu ar rhyw gyswllt diwylliannol, hanesyddol neu gymdeithasol lleol."
Yn y Canllawiau Atodol, wedi'u seilio ar ganllawiau cenedlaethol, sydd ynghlwm â'r polisi cyfeirir at osgoi enwau sy'n anaddas yn esthetig megis Ffordd y Gwaith Nwy, Ty'r Domen neu Lôn Pwll Glo.

2.3 Yn yr achos hwn mae gan y cynnig Pwll y Clai gysylltiadau lleol ond gellid barnu ei fod yn anaddas o ran agweddau eraill. Mae'r Cyngor wedi derbyn llythyr o wrthwynebiad i'r enw arfaethedig Pwll y Clai ar sail dibrisio a'i gwneud yn anodd gwerthu yn y dyfodol ac na fyddai'r gwrthwynebydd wedi prynu'r eiddo yn y lle cyntaf petai'n gwybod am yr enw hwn. Roedd y prynwyr dan yr argraff mai enw'r ffordd fyddai fersiwn Gymraeg o enw'r datblygiad ac awgrymwyd defnyddio un ai Trem y Dyfffryn neu Golygfa'r Dyffryn.

2.4 Yn arferol mae gan swyddogion bwerau dirprwyedig i benderfynu ar enwi strydoedd ond oherwydd y gwrthwynebiad cyfeiriwyd y penderfyniad hwn i'r Aelodau wneud penderfyniad arno.

## 3. YMATEB Y RHAI YR YMGYNGHORWYD Â NHW

3.1 Ni ymgynghorwyd â'r rhai a restrir fel rhai y dylid ymgynghori â nhw yn statudol ac ni ymgynghorwyd â'r Post Brenhinol gan mai eu prif bryder yw dyblygu rhwng enwau tebyg yn y cyffiniau ac ynganiad ac ni fyddai'r un o'r ddau beth yma'n peri problem yn yr achos hwn.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Aelodau ddewis un ai Trem y Dyffryn neu Golygfa'r Dyffryn.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**29 Medi 2004**
**EITEM AGENDA RHIF 5**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

## 2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE

**2.1** Mewn ymgynghoriad ag Adran Clerc y Sir, penderfynwyd mai dydd Llun, **4 Hydref 2004** yw'r dyddiad mwyaf addas. Mae'r dyddiad hwn wedi ei neilltuo'n ddarpariaethol.

**2.2** Felly fe'ch cynghorir y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn cael eu cynnal **ddydd Llun, 4 Hydref 2004.**

## 3. AELODAETH Y PANEL YMWELIADAU SAFLE

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Bod yr Aelodau'n cytuno i gynnal yr Ymweliadau Safle ddydd Llun, 4 Hydref 2004.**

**Penderfyniadau a wnaed gan y**
**Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**
**o dan Bwerau Dirprwyedig**
**1 Awst 2004 - 31 Awst 2004**

**Eitem er gwybodaeth**

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes dan bwerau dirprwyedig. Os ydych chi'n dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog fu'n ymwneud â'r cais os gwelwch yn dda.**

**<u>MATHAU O BENDERFYNIAD</u>**

| | |
|---|---|
| **CANIATÁU (GRANT)** | **- caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **GWRTHOD (REFUSE)** | **- gwrthod pob math o gais** |
| **CYMERADWYO (APPROVE)** | **- cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CANIATÂD (CONSENT)** | **- caniatáu caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu ganiatâd hysbyseb** |
| **BARNU (DEEMED)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD (NO OBJ)** | **- dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal gadwraeth** |
| **NID YW'N OFYNNOL (NOT REQ)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig** |
| **PENDERFYNWYD (DETERMIN)** | **- penderfynwyd nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth o flaen llaw neu'n cael ei ganiatáu pan benderfynir ar y cais (rhai gweithiau telecom a gwaith amaethyddol penodol)** |
| **DATBLYGIAD A GANIATEIR (P DEV)** | **- canfuwyd fod y cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y cais** |
| **TYNNWYD YN ÔL (WDN)** | **- tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeisydd** |
| **ANNILYS (INVALID)** | **- canfuwyd fod y cais yn annilys** |
| **ARDYSTIO (CERTIFY)** | **- cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithlon** |
| **G ARDYSTIO (RCERTIFY)** | **- gwrthodwyd cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol** |

copïau atodiadau ychwanegol ar gael